**EITEM AR YR AGENDA: 15**

**GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**ADRODDIAD AR GYFER YR AWDURDOD TÂN AC ACHUB**

| | |
|---|---|
| DYDDIAD: | 20fed Mehefin 2005 |
| ADRODDIAD GAN: | **Y PRIF SWYDDOG TÂN** |
| DIBEN YR ADRODDIAD: | Hysbysu a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am nifer y cwynion a'r llythyrau o werthfawrogiad a dderbyniwyd oddi wrth y cyhoedd |

1. **<u>GWYBODAETH</u>**

1.1 <u>Cwynion a Dderbyniwyd Ebrill 2004 – Mawrth 2005</u>

Nifer y cwynion a dderbyniwyd, yr ymchwiliwyd iddynt ac a ddatryswyd yn unol â'r polisi a'r gweithdrefnau a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod Tân ac Achub oedd:

| Natur y Cwynion a Dderbyniwyd | Eleni | Y llynedd |
|---|---|---|
| Materion yr Iaith Gymraeg | 1 | 1 |
| Gweithdrefnau Adnoddau Dynol | 0 | 3 |
| Gyrru | 2 | 13 |
| Diogelwch Tân: Gorfodaeth | 2 | 2 |
| Diogelwch Cymunedol | 1 | |
| Gweithgarwch yr Ochr Weithredol | 3 | 6 |
| Anfon allan | 0 | 2 |
| Ymddygiad | 4 | 0 |
| Cyfanswm | **13** | **27** |

| Nifer y Cwynion a Brofwyd | Eleni | Y llynedd |
|---|---|---|
| Materion yr Iaith Gymraeg | 1 | 0 |
| Gweithdrefnau Adnoddau Dynol | 0 | 1 |
| Gyrru | 2 | 10 |
| Diogelwch Tân: Gorfodaeth | 0 | 2 |
| Diogelwch Cymunedol | 1 | |
| Gweithgarwch yr Ochr Weithredol | 3 | 3 |
| Anfon allan | 0 | 1 |
| Ymddygiad | 1 | 0 |
| Cyfanswm | **8** | **17** |

## 2. CRYNODEB O'R CWYNION

2.1 Y Gymraeg

| | |
|---|---|
| Derbyniodd aelod o'r cyhoedd lythyr yn Gymraeg, oedd yn cynnwys gramadeg anghywir ac a anfonwyd allan cyn iddo gael ei olygu. | *Atgoffwyd yr holl staff i gadw at y weithdrefn gywir sef cael Cyfieithydd y Gwasanaeth i wirio pob cyfieithiad.* |

2.2 Gyrru

| | |
|---|---|
| Derbyniwyd cwyn ynghylch diffoddwyr tân rhan amser yn gyrru'n rhy gyflym wrth ymateb i'r orsaf dân. | *Cafodd y gyrrwr ei gyfweld yn ffurfiol, a dywedwyd wrtho am gadw at y cyfyngiadau cyflymder a dilyn arferion gyrru diogel.* |

| | |
|---|---|
| Roedd un gŵyn gan berchennog adeilad yn ymwneud â pheiriannau tân ar eu ffordd i alwadau brys. | *Y tro hwn, cafodd y gyrrwr ei gyfweld ac roedd yr achwynnydd yn fodlon â'r canlyniad.* |

| | |
|---|---|
| Honnodd perchennog adeilad fod gyrrwr un o gerbydau'r Gwasanaeth wedi achosi difrod gormodol i arwyneb ei ffordd, ac wedi peidio â chau'r giât oedd yn diogelu ei adeilad. | *Cafodd y gyrrwr ei gyfweld ac anfonwyd ymddiheuriad i'r achwynnydd. Cafodd y staff dan sylw eu hatgoffa eto o bwysigrwydd safonau gyrru ac ymddygiad.* |

**Aeth peiriannau tân ar 15,484 o deithiau 'Goleuadau Glas' wrth ymateb i ddigwyddiadau rhwng Ebrill 1af 2004 a Mawrth 31ain 2005.**

2.3 Diogelwch Tân

Gorfodaeth

| | |
|---|---|
| Cwynodd perchennog gwesty ynghylch y llythyr yn hysbysu am dor-cyfraith a dderbyniodd yn dilyn Ymchwiliad Diogelwch Tân. | *Anfonwyd llythyr o esboniad at yr achwynnydd yn rhestru'r mesurau oedd eu hangen dan y ddeddfwriaeth bresennol. Roedd yr achwynnydd yn fodlon â'r esboniad hwn.* |

| | |
|---|---|
| Holodd trefnydd digwyddiadau pam fod y ffigurau deiliadaeth wedi cael eu gostwng ar gyfer yr adeilad dan sylw. | *Anfonwyd llythyr at yr achwynnydd yn nodi'r rhesymau dros y ffigurau a argymhellwyd, ac a osodwyd dan y canllawiau Diogelwch Tân Cenedlaethol presennol.* |

2. **CRYNODEB O'R CWYNION** *(parhad)*

2.4 <u>Diogelwch Cymunedol</u>

| | |
|---|---|
| Cwynodd aelod o'r cyhoedd ynghylch yr amser a gymerwyd i ymateb i gais am Archwiliad Diogelwch Tân yn y Cartref. Roedd y cais wedi cael ei wneud trwy'r gwasanaeth ateb pwrpasol ar gyfer Diogelwch Tân Cymunedol. | *Roedd problem dechnegol wedi digwydd, ac wedi arwain at beidio â recordio'r neges a adawyd gan y galwr.* |

**Gwnaethpwyd 7,346 o archwiliadau diogelwch tân y llynedd.**

2.5 <u>Gweithgarwch yr Ochr Weithredol</u>

| | |
|---|---|
| Derbyniwyd cwyn wedi i griw fynd at lifogydd lle nad oedd unrhyw gamau wedi eu cymryd gan y gwasanaeth tân. | *Nid oedd y criw oedd yn bresennol wedi cyfathrebu'r gweithdrefnau codi tâl ac indemniad cywir yn eglur i berchennog yr adeilad. Datryswyd y mater yn dilyn y digwyddiad a rhoddwyd ymddiheuriad.* |

| | |
|---|---|
| Cwynodd aelod o'r cyhoedd ynghylch difrod a achoswyd yn ystod digwyddiad, a olygai nad oedd ei eiddo yn ddiogel. | *Achoswyd difrod wrth fynd i mewn yn ystod gweithgarwch yr ochr weithredol. Roedd yr achwynnydd yn fodlon â chanlyniad yr ymchwiliad.* |

**Aeth staff GTAGC at 9,985 o ddigwyddiadau ar yr ochr weithredol yn ystod y cyfnod hwn.**

| | |
|---|---|
| Gofynnodd aelod o'r cyhoedd am gymorth yn ystod llifogydd. Dywedwyd wrtho y byddai swyddog yn ffonio'n ôl, ond ni dderbyniodd unrhyw alwad. | *Dywedwyd wrth y swyddog a gofynwyd iddo gysylltu â'r person, ond cafodd ei anfon at ddigwyddiad arall oedd â blaenoriaeth uwch. Cafodd yr Ystafell Reoli wybod ond fe gaewyd y digwyddiad heb wneud cysylltiad pellach. Atgyfnerthwyd gweithdrefnau'r Ystafell Reoli er mwyn sicrhau nad oes unrhyw dasgau sy'n weddill yn cael ei hanghofio.* |

**Deliodd Ystafell Reoli GTAGC â 22,641 o alwadau rhwng Ebrill 1af 2004 a Mawrth 31ain 2005.**

2. **CRYNODEB O'R CWYNION** *(parhad)*

2.6 Ymddygiad

| | |
|---|---|
| Bu pedair cwyn am ymddygiad yn ystod y cyfnod hwn, ac un ohonynt yn unig a brofwyd. Roedd hyn yn ymwneud ag ymddygiad diffoddwr tân mewn peiriant tân. | *Roedd y diffoddwr tân dan sylw yn gwneud arwydd at gyfaill, ac fe'i gwelwyd gan yrrwr arall oedd yn mynd heibio ac fe dybiodd mai ato efo roedd yr arwydd. Derbynniodd yr achwynnydd ganfyddiadau'r ymchwiliad. Atgoffwyd y criw tân dan sylw am y safonau ymddygiad a ddisgwylid gan y Gwasanaeth.* |

3. **LLYTHYRAU O WERTHFAWROGIAD**

3.1 Mae'n werth nodi bod 32 o lythyrau o werthfawrogiad wedi dod i law yn mynegi bodlonrwydd â'r Gwasanaeth.

3.2 Roedd y llythyrau o werthfawrogiad a dderbyniwyd yn cyfeirio at ystod eang o weithgarwch y Gwasanaeth Tân ac Achub, ond gellir eu dosbarthu'n fras fel a ganlyn:

| | | |
|---|---|---|
| 3.3 | **Digwyddiadau'r Ochr Weithredol** | *Daeth 9 llythyr i law oddi wrth bobl oedd yn dymuno mynegi eu diolchgarwch am y gwasanaethau a dderbyniasant pan ddigwyddodd tanau yn eu cartrefi. Gwnaethpwyd sylwadau am eu proffesiynoldeb a'r trugaredd a ddangoswyd tuag atynt yn ystod y profiadau trawmatig hyn.* |
| 3.4 | **Mentrau ac Ymweliadau Diogelwch Tân Cymunedol** | *Daeth 6 llythyr i law gan sefydliadau yn diolch i'r Gwasanaeth am ei bresenoldeb mewn ffeiriau cymunedol, digwyddiadau a Chriw Craidd.* |
| 3.5 | **Cefnogaeth i Elusennau a Phartneriaethau** | *Derbyniwyd 2 lythyr ynglyn â'r gefnogaeth a roddwyd i elusennau gan y Gwasanaeth ac ynglyn â phartneriaeth gweithio newydd a ffurfiwyd.* |
| 3.6 | **Ymweliadau i Ysgolion** | *Daeth 3 llythyr i law yn diolch i'r Gwasanaeth am ddal i ymweld ag ysgolion a, thrwy hynny, sicrhau bod cyngor am Ddiogelwch Tân yn cael ei gynnwys o fewn y Cwricwlwm Cenedlaethol.* |
| 3.7 | **Lleoliadau Profiad Gwaith** | *Derbyniwyd 1 llythyr yn diolch i'r Gwasanaeth am ei gefnogaeth yn cynnig rhaglen Profiad Gwaith.* |

3. **LLYTHYRAU O WERTHFAWROGIAD** *(parhad)*

| | | |
|---|---|---|
| 3.8 | **Mentrau i ostwng nifer y Tanau Bwriadol, a Throseddau Ieuenctid** | *Daeth 6 llythyr i law yn diolch i'r Gwasanaeth am yr arweiniad gwerthfawr a roddir i bobl ifanc a fynychodd fentrau megis Prosiect y Ffenics a'r cynllun Warden Ifanc.* |
| 3.9 | **Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref** | *Daeth 1 llythyr i law yn canmol y proffesiynoldeb a ddangoswyd, a'r cyngor a roddwyd pan ymwelodd criw tân a chartref dau berson oedrannus.* |
| 3.10 | **Sgyrsiau am Ddiogelwch Tân** | *Derbyniwyd 4 llythyr yn diolch i staff am y cyflwyniadau llawn gwybodaeth a roddwyd yn ystod sgyrsiau am ddiogelwch tân i wahanol sefydliadau.* |

4. **ARGYMHELLIAD**

4.1 Bod yr Awdurdod Tân ac Achub yn nodi nifer y cwynion a'r llythyrau o werthfawrogiad a ddaeth i law.